

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, nos Fawrth yr 8fed o Fedi 2015.

- 1. Presennol:** OP Huws (Cadair), Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts - Llanllyfni; Dyfed Wyn Edwards (Cyngorydd Sir), Barry Bracegirdle, Nerys Wyn Williams, Iwan Lloyd Williams (Penygroes); Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones - Talysarn; Eurig Wyn Evans (Nebo); Craig ab Iago (Cyngorydd Sir); Anwen Davies (Cyngor Gwynedd) eitem 4 / **Ymddiheuriadau:** Iwan Lloyd Williams - Penygroes (methu cyrraedd tan ar ol i'r cyfarfod gychwyn); Ffion Jones - Nantlle; Justin Davies - Penygroes; Dafydd Glyn Owen - Talysarn. Cydymdeimlodd y Cyngor efo Eurig Evans a rei brofedigaeth o golli chwaer.
 - 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb.
 - 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Gorffennaf.** Hefina yn datgan cywirdeb a Nerys yn eilio.
 - 4. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Gwahoddwyd Anwen Davies o Gyngor Gwynedd i drafod cwtogi gwasanaethau yng Nghyngor Gwynedd, a chydweithio efo Cyngorau Cymuned. Cyngor Gwynedd yn gorfod gwneud arbedion ariannol sylweddol - bydd sesiynnau ymgysylltu gyda'r nos neu 'drop-in' o'r 28ain o Fedi, a bydd holiadur ar y we. Edrych ar gyfleusterau cyhoeddus ee toiledau, llyfrgelloedd, meysydd parcio ayyb. Annog Cyngorau Cymuned i yrru cais ymlaen at Anwen. Beth fyddai oblygiadau trosglwyddo staff? Os yn dorriad, ni fyddai arian ar gael i gyllido staff. Os y byddai yn drosglwyddiad effeithlonrwydd, byddai rhyw fath o arian ar gael i helpu i'w gynnal. Gofynwyd am y cysyniad o ymuno cyngorau cymuned ar gyfer rhai gwasanaethau. Byddai hyn yn gyfle i rannu adnoddau, asedau, arian, pobl a gwasanaethau. Byddai lefel risg yn lleihau gan fod angen dim ond un archwiliad, un polisi yswiriant, byddai mwy o sgop i ddatblygu. Byddai Cyngor Gwynedd yn fodlon rhannu gwybodaeth am y costau rhedeg presennol o unrhyw wasanaeth dan sylw. Rhaid meddwl am yr ochr ariannol, a'r gost o ariannu rhywbeth tymor hir. (Craig yn cyrraedd y cyfarfod). Os am gymryd cyfrifoldeb, byddai gofyn anelu at ryw beth syml i gychwyn. Amserlen tynn. Diolchwyd Anwen am ddod i'r cyfarfod.
Sedd wag Penygroes dal i sefyll - holi yn y pentref, a chael enw/enwau pendant i'w cysidro ar gyfer cyfethol erbyn y cyfarfod nesaf; Coed tu o li 12 Trem yr Wyddfa - torri; De-fibrilator - holi Cyngor Gwynedd os oes un ar gael i ddefnydd cyhoeddus yn Plas Gwilym; Dyfed Edwards wedi agor trafodaethau gyda Walis George (Cartrefi Cymunedol) ynglyn a'r Fic, Penygroes; Brigau coeden St Rhedyw - perchennog y ty wedi torri'r goeden i gyd i lawr, ac nid ychydig frigau fel a gytunwyd. Y Cyngor wedi derbyn cwynion gan nifer o drigolion. Y Clerc i yrru llythyr at yr adran gynllunio, Cyngor Gwynedd i holi os oedd anghenion ar y caniatad cynllunio i gadw'r coed.
 - 5. Adrodd yn ol o unrhyw gyfarfod is-bwyllgor.**
 - 6. Cynllunio C15/0854/22/LL - Tir ger 1 Felin Gerrig, Llanllyfni - newid defnydd tir ar gyfer iard adeiladwr, ffens, garejis ayyb - caniatáu.** Pryder am y Japanese Knotweed sydd ar y safle; C15/0855/22/LL - Tir tu cefn i Cochrwd House, Heol y Bedyddwyr, Penygroes - codi adeilad i storio offer a pheiriannau, rhodfa a man caled - caniatáu; C15/0803/22/LL - 47 High Street, Penygroes - estyniad llawr cyntaf yn y cefn - caniatáu; C15/0773/22/LL - Minffordd, Ffordd Clynnog, Penygroes - estyniad - caniatáu; NP3/22/29D - Gelli Ffrydiau, Nantlle - Cynllun trydan dwr - caniatáu; NP3/22/89A - Afon Craig Las - adlinio rhan o lwybr a pibell cynllun trydan dwr sydd wedi ei gymeradwyo - caniatáu; C15/0887/22/LL - Garej Arwyn, Stad Ddiwydiannol, Penygroes - newid defnydd tir i greu maes parcio ar gyfer 14 cerbyd- caniatáu. Gofyn wrth Gyngor Gwynedd os y byddai modd trefnu sesiwn hyfforddiant ar gyfer Cyngorwyr i roi arweiniad ar ymateb i geisiadau cynllunio. Angen gwybod beth yw'r fframwaith polisi yn lleol, beth yw ein rol ni, a sut i yrru sylwadau sy'n berthnasol.
Diweddariad Cais parc solar C15/0700/22/LL a cais tyrbîn gwynt C15/0670/22/LL. Sylwadau wedi eu gyrru - Dafydd Glyn Owen a Sharon Jones wedi gofyn y cwestiynau sydd yn berthnasol i'r cais cynllunio am barc solar. Gwrthwynebu nes daw mwy o wybodaeth i law.
 - 7. Gohebiaeth.**
- Cyngor Gwynedd**
- *Ymatebion i gwynion / ymholiadau - Stryd yr Wyddfa, Penygroes - ymateb gadarnhaol gan Gyngor Gwynedd ynglyn a thacluso a chwynu; Tir wrth Trem yr Wyddfa - dim arian wedi ei glustnodi ar gyfer gwaith tacluso; Arwydd 30 mya Talysarn - Cyngor Gwynedd yn ystyried cais y Cyngor Cymuned i symud yr arwydd; Ysbwriel Pwll Budr, Penygroes - Cyngor Gwynedd yn cadw llygad.
 - *Ymholiad am fan fwyd ym maes parcio Talysarn - nid y Cyngor Cymuned yw perchnogion y tir.
 - *Gwasanaeth Cyfreithiol - cyfarfodydd y Cod Ymddygiad i Aelodau. Er gwybodaeth.

Arall

*Cyfrifon 2014-15 wedi eu cymeradwyo gan yr archwilydd allannol.

*Un Llais - cyfarfod cyffredinol blynyddol 3/10/15. Neb am fynychu.

*Newyddlen Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Er gwybodaeth.

*Gweithdy Cynllunio 23/9/15. 'Planning Portal' - neb am fynychu - yn hytrach gofyn wrth Gyngor Gwynedd roi arweiniad fyddai yn fwy perthnasol i ni.

*Taflen Wyodaeth Gweld Ser - Parc Cenedlaethol Eryri. Er gwybodaeth.

*Gweithdy Cynllunio 21/9/15. Gweler uchod - lleoliad gwahanol.

*Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor - Un Llais - 16/9/15. Er gwybodaeth.

*Llythyr parthed llwybr cyhoeddus rhif 16 Ffordd Haearn Bach. Ymateb drwy egluro mai dim ond dau dorriad y flwyddyn sydd wedi ei contractio a'r arian sydd ar gael. Cysylltu efo Meirion, Cyngor Gwynedd ynglyn a Japanese Knotweed, a phwy yw perchennog y lon.

*Julie Holland - Neighbourhood Watch. Angen i adolygu yn y pentrefi - edrych ar y cynlluniau presennol, a thrafod yng nghyfarfed nesaf y Cyngor Cymuned.

*Gwrthwynebiadau i geisiadau cynllunio gan Gynghorau Cymuned. Ebst gan Gyngor Tref Pwllheli yn honni bod gwrthwynebiad Cyngor Cymuned yn cario'r un pwysau a gwrthwynebiad gan unigolyn, er fod Cyngor Cymuned yn gorff sy'n sefyll dros y gymuned gyfan.

*Cyfarfod Clercod Gwynedd a Mon 25/9/15.

8. **Gwefan.** Newyddion - angen ymddiheuro i'r gymuned am gylwr chwyn MacPelah dros yr haf. Oherwydd bod rhwng cytundebau. Ymddiheuro, ac egluro fod y gwaith wedi ei wneud, a bod cynllun mewn lle ar gyfer y flwyddyn nesaf; Ceisiadau am arian yn cael eu trafod fis Chwefror - ceisiadau i'w danfon at y Clerc, a mantolen ariannol yn hanfodol; Anwen Davies wedi dod i'r cyfarfod i drafod arbedion Cyngor Gwynedd a thoriadau posib - y cyngor Cymuned yn awyddus cyd-weithio i sicrhau adnoddau i Ddyffryn Nantlle; Diolch i'r Cynghorwyr am wirfoddoli eu hamser i'r Cyngor. I gyd yn gwneud yn gwbl ddi-dal, ac yn llais i drigolion y Dyffryn; Pryderus ynglyn a chyflwr y Fic ym Mhenygroes.

9. **Cae Efa Lwyd, Penygroes.** Gwahodd swyddog o'r cwmni cloddio i gyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.

10. **Goleuadau Nadolig.** Gofyn wrth Scottish Power am 'unmetred supply' - Cynllun i Dyffryn Nantlle.

11. **Goleuadau Beics.** Syniad i'w drafod, sef rhannu goleuadau beics i blant yr ardal sydd yn pasio eu prawf beics yn yr ysgolion lleol, er cof am Elwyn, Les a Ifan Glyn. Pawb yn cytuno mewn egwyddor. Y Cynghorwyr i holi gwragedd y tri Cynghorydd i ofyn wrthynt os y byddent yn fodlon cyflwyno'r goleuadau i'r plant yn yr ysgolion. Cytuno mewn egwyddor, a chynnal hyn yn ddigwyddiad blynyddol.

12. **Materion Pentrefi.** Talysarn Lon gefn i Eifion Terrace - cyflwr y ffordd yn wael ac angen sylw; Penygroes cais arian Cynefin - wedi ei wrthod; mapiau taflen baw cwn - cysylltu efo Peter Simpson i ofyn am ddiweddariad, gan fod y Cyngor Cymuned yn awyddus i gyflymu. Llanllyfni Peiriant arian newydd yn y Co-op ddim yn cynnig gwasanaeth Cymraeg - holi staff y Co-op; Maes parcio Lon Ddwr - gwydr ar y llawr; Ysbwriel wrth maes parcio Gorphwysfa; Ysbwriel ar waelod allt Lon Ddwr; Angen arwydd newydd i stad tai Ger y Llan (North Wales Housing); Japanese Knotweed yn lledaenu o'r maes parcio ar hyd yr afon a'r eglwys, a stwffio drwy giat dros y bont i'r afon. Talysarn Ysbwriel wrth y biniau ailgylchu - angen camera yno; Nebo Ysbwriel wrth y giat at Cwm Dulyn; Tractors a threlars wedi bod yn cario yn ol ac ymlaen o chwarel wrth Afallon - anfon at yr adran gynllunio yn Cyngor Gwynedd i holi os ydynt yn ymwybodol. Penygroes Cais i dorri'r coed y y cae tu o li garej Pover - bungalow Eifionydd yn cael ei fyg oherwydd y coed.

13. **Llwybrau a Mynwentydd.** Cais i dorri Trim Track Talysarn unwaith eto. Tindr MacPelah. Yr hysbyseb wedi ymddangos yn y Caernarfon and Denbigh; chwyn - wedi tyfu'n fawr dros yr haf yn MacPelah. Y chwistrellu wedi ei wneud o'r diwedd, Penderfynwyd bod angen mwy nag un chwistrelliad chwyn y flwyddyn, a bod angen cynllun chwistrellu. Penderfynwyd cynnal cyfarfod is-bwyllgor mynwentydd mewn pythefnos.

14. **Materion yn ymwued a'r heddlu.** Dim i'w trafod.

15. **Materion ariannol.** Tindr Caernarfon and Denbigh Herald £168.60; Ffon/Rhyngwyd Clerc £25; Derbynebaw Clerc £122.63 - derbyn. Taliad 2 praesept wedi ei dderbyn yn y cyfrif banc.

***Taenlen i'w chymeradwyo** - derbyn. ***Ceisiadau am Arian** - Cymdeithas Amaethyddol Gogledd Cymru. Trafod fis Chwefror.